Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) a Phrif Gwnstabl (PG) Dyfed-Powys**

# Cylch Gorchwyl

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) a Phrif Gwnstabl (PG) Dyfed-Powys, ei aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

## 2. DATGANIAD O DDIBEN

Diben y pwyllgor yw darparu ffocws annibynnol, lefel uwch ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth. Ei rôl yw sicrhau bod sicrwydd digonol dros lywodraethu, risg a rheolaeth, sy'n rhoi mwy o hyder i'r CHTh a'r PG fod y trefniadau hynny'n effeithiol.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n goruchwylio archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â'r adroddiadau ariannol a llywodraethu, gan helpu i sicrhau bod trefniadau digonol mewn grym ar gyfer herio mewnol ac atebolrwydd cyhoeddus.

## 3. Llywodraethu, risg a rheolaeth

Bydd y Pwyllgor yn:

- Adolygu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, ac ystyried y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (sy'n cynnwys y Cod Llywodraethu Corfforaethol, Cynllun Cydsyniad, Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Cytundebau).
- Monitro datblygu a gweithredu rheoli risg yn effeithiol yn SCHTh a'r Heddlu.
- Monitro cynnydd o ran mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â risg yr adroddwyd amdanynt wrth y pwyllgor.
- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheoliadau mewnol a monitro gweithredu camau y cytunwyd arnynt.

- Ystyried adroddiadau ar effeithlonrwydd trefniadau rheolaeth ariannol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â **Chod Rheolaeth Ariannol** CIPFA, y Strategaeth Gyfalaf a'r Polisi Rheoli Trysorlys.
- Ystyried trefniadau SCHTh a'r Heddlu ar gyfer goruchwylio gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
- Adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i SCHTh a'r Heddlu drwy dwyll a llygredd.
- Monitro'r strategaeth gwrth-dwyll, camau gweithredu ac adnoddau.
- Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer cydweithrediadau neu bartneriaethau arwyddocaol.

## 4. ADRODD AR LYWODRAETHU A CHYLLID

### Adrodd ar lywodraethu

Bydd y Pwyllgor yn:

- Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn i'r CHTh a'r PG ei gymeradwyo ac ystyried pa un ai a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a sicrwydd ategol, gan gynnwys barn flynyddol y pennaeth archwilio mewnol.
- Ystyried pa un ai a yw'r gwerthusiad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dod i gasgliad teg bod trefniadau llywodraethu'n addas ar gyfer y diben, gan gefnogi cyflawni amcanion SCHTh a'r Heddlu.

### Adrodd ariannol

Bydd y Pwyllgor yn:

- Monitro'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer adrodd ariannol er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion statudol a safonau proffesiynol.
- Adolygu'r datganiadau o gyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried pa un ai a yw polisïau cyfrifeg priodol wedi'u dilyn a pha un ai a oes pryderon yn deillio o'r datganiadau ariannol neu'r archwiliad y mae angen eu dwyn i sylw'r CHTh a'r PG.
- Ystyried adroddiadau'r archwilydd allanol i'r CHTh a'r PG ar faterion sy'n deillio o archwilio'r cyfrifon.

## 5. TREFNIADAU AR GYFER ARCHWILIO A SICRWYDD

Bydd y Pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd SCHTh a'r Heddlu ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'u peryglon a blaenoriaethau'n briodol.

### Archwilio allanol

Bydd y Pwyllgor yn:

- Cefnogi annibyniaeth archwilio allanol drwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd allanol o'i annibyniaeth ac yn adolygu unrhyw faterion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol neu Archwilio Cymru.
- Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- Ystyried adroddiadau penodol, fel y cytunwyd â'r archwilydd allanol.
- Sylwi ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol a hyrwyddo cyflenwi gwerth am arian o archwilio allanol.
- Cynghori ar gomisiynu gwaith ychwanegol o archwilio allanol.
- Cynghori ac argymell ar effeithiolrwydd perthnasau rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau archwilio neu gyrff perthnasol eraill.
- Darparu mynediad rhydd a dilyffethair i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer yr archwilwyr, gan gynnwys y cyfle ar gyfer cyfarfod preifat gyda'r pwyllgor.

### Archwilio mewnol

Bydd y Pwyllgor yn:

- Adolygu'r siarter archwilio mewnol ar gyfer cymeradwyaeth.
- Adolygu cynigion a wnaed mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol a gwneud argymhellion.
- Adolygu'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau archwilio mewnol, yr ymagwedd tuag at ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith sydd angen i osod dibyniaeth ar y ffynonellau hynny.
- Ystyried newidiadau sylweddol dros dro i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a gofynion adnoddau.

- Ymholi rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol yn briodol i bennu pa un ai a oes unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.
- Ystyried unrhyw amhariadau i annibyniaeth neu wrthrychedd y pennaeth archwilio mewnol sy'n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol ac argymell ac adolygu amddiffyniadau'n rheolaidd er mwyn cyfyngu amhariadau o'r fath.
- Ystyried adroddiadau gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd hyn yn cynnwys:
  - diweddariadau ar waith archwilio mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion o bryder a chamau gweithredu mewn llaw o ganlyniad i waith archwilio mewnol.
  - adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella.
  - adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, gan ystyried pa un ai a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon sylweddol bod yn rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys:
  - y datganiad o'r lefel o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella sy'n cefnogi'r datganiad (bydd y rhain yn dangos dibynadwyedd canlyniadau archwiliad mewnol)
  - barn effeithiolrwydd a digonolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu ar y cyd, rheoli risg a rheolaeth, ynghyd â'r crynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn (bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor i adolygu'r Datganiad Llywodraethu Cyffredinol).
- Ystyried crynodebau adroddiadau archwilio mewnol penodol ar gais.
- Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod rheolwyr wedi derbyn lefel risg a allai fod yn annerbyniol i SCHTh neu'r Heddlu, neu lle mae pryderon am gynnydd o ran gweithredu camau y cytunwyd arnynt.
- Cyfrannu at y rhaglen gwella a sicrhau ansawdd, yn arbennig i'r asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

- Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethau Blynyddol, yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- Darparu mynediad rhydd a dilyffethair i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle ar gyfer cyfarfod preifat gyda'r pwyllgor.

**6. TREFNIADAU ATEBOLRWYDD**

Bydd y pwyllgor yn:

- Adrodd wrth y CHTh a'r PG ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu fframweithiau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu, trefniadau adrodd ariannol a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.
- Adrodd wrth y CHTh a'r PG yn rheolaidd ar berfformiad y pwyllgor mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y pwyllgor o ran bodloni ei ddiben.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y pwyllgor, gan gynnwys casgliad ar y gydymffurfiaeth â Datganiad Sefyllfa CIPFA.

**7. LLYWODRAETHU**

**Cadeirydd:**

Penodir Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio o aelodaeth y Pwyllgor. Bydd penodiad y Cadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn. Gellir ail-benodi'r un person fel Cadeirydd yn ystod pob etholiad.

**Amlder:**

Trefnir 4 cyfarfod pwyllgor ffurfiol a hyd at 2 weithdy/seminar y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen. Gall y CHTh a'r PG ofyn i'r Cyd-bwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y maent yn dymuno cael cyngor y Pwyllgor arnynt.

**8. AELODAETH**

Bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio'n cynnwys hyd at bump o bobl, yn annibynnol o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Panel Heddlu a Throseddu.

Penodir aelodau ar y cyd gan y CHTh a'r PG. Bydd aelodau'n gwasanaethu ar y Pwyllgor am dymor o bedair blynedd. Dylid cymryd gofal i osgoi bod tymhorau pob aelod yn gorffen yr un pryd er mwyn sicrhau dilyniant. Ni fydd unrhyw unigolyn yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am fwy na chyfanswm o wyth mlynedd.

Er mwyn cynyddu hygrededd ac awdurdod y penderfyniadau y bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu gwneud, bydd cworwm o dri aelod yn cael ei sefydlu.

Gall cyfethol fod yn fanteisiol ar gyfer dod â barn annibynnol lle mae angen trafodaeth arbenigol. Ni fydd gan unrhyw aelod cyfetholedig hawliau pleidleisio.

Dylai'r CHTh a'r PG fynd i gyfarfodydd ffurfiol y Cyd-bwyllgor Archwilio, neu gael eu cynrychioli'n briodol ynddynt.

Bydd y canlynol hefyd yn bresennol:

- Prif Weithredwr, SCHTh
- Prif Swyddog Cyllid, SCHTh
- Cyfarwyddwr Cyllid, HDP
- Archwilydd Mewnol
- Archwilydd Allanol
- Rheolwr Llywodraethu Galw a Pherfformiad
- Pennaeth Cyllid Corfforaethol
- Swyddogion eraill o SCHTh a'r Heddlu pan fydd angen

Gall aelodau'r pwyllgor hefyd eistedd fel cynghorwyr ar grwpiau'r Heddlu, er enghraifft y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, i gefnogi ei rôl.

Gwahoddir pob aelod i arwain mewn maes y mae ganddo wybodaeth arbenigol ohono, a gall gyfathrebu â swyddogion a staff perthnasol y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol er mwyn hysbysu gweddill y Pwyllgor a rhoi sicrwydd i'r CHTh a'r PG.

## 9. YSGRIFENYDDIAETH

Bydd gweinyddiaeth i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n cael ei darparu gan SCHTh. Rhoddir agendâu a phapurau i Aelodau er mwyn iddynt eu hystyried 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Bydd agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ffurfiol ar gael yn ddwyieithog lle'n bosibl ar wefan SCHTh.

Bydd cyfarfodydd yn cynnwys sesiwn agored (sy'n cael ei chynnal yn gyhoeddus). Os oes eitemau agenda na ellir eu trafod mewn sesiwn agored, cynhelir sesiwn gaeedig ar ôl y sesiwn agored. Gwneir unrhyw benderfyniad i gynnal elfen o'r cyfarfod mewn sesiwn gaeedig yn seiliedig ar yr egwyddorion hynny a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â'r CHTh a'r PG mewn sesiwn gaeedig yn flynyddol, neu yn ôl y galw. Bydd pob Aelod yn cyfarfod â'r archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol mewn sesiwn gaeedig unwaith y flwyddyn o leiaf.

Cynhelir hyfforddiant a digwyddiadau eraill o dro i dro, a disgwylir i aelodau fod yn bresennol.

## 10. RHEOLYDD FERSIWN A DYDDIAD ADOLYGU

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 07-2023 |
| Awdur: | Caryl Bond |
| Dyddiad cymeradwyo: | 26 Gorffennaf 2023 |
| Bwrdd cymeradwyo: | Cyd-bwyllgor Archwilio |
| Dyddiad adolygu: | Gorffennaf 2024 |